Ein cyf: WAQ 53542
Nicholas Bourne AC
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

5 Hydref 2009

***<u>Parthed: "Pa asesiad sydd wedi'i wneud ynghylch effaith debygol y posibilrwydd o atal swyddogaethau'r heddlu ar yr M4 o 6 Ebrill ymlaen?"</u>***

Yn dilyn yr ateb dros dro a gawsoch i WAQ 53542, rwyf bellach mewn sefyllfa i roi ateb i chi. Ymddiheuraf am yr oedi cyn rhoi ateb.

Yn dilyn cyhoeddiad Heddlu De Cymru eu bod yn bwriadu rhoi'r gorau i blismona anhroseddol ar gefnffyrdd yn ei ardaloedd, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi rhoi trefniadau dros dro ar waith gan ddefnyddio'r arolygwyr prif ffyrdd sydd gan ei Hasiant Cefnffyrdd ar hyn o bryd, a chan weithio ar y cyd â Heddlu De Cymru.

Rydym wrthi'n datblygu Swyddog Trafnidiaeth i'w dreialu ar yr M4 a'r A470 a disgwylir iddo fod yn ei le erbyn Ionawr 2010. Mae pwerau Swyddog Trafnidiaeth wedi'u sicrhau a byddant yn cael eu dirprwyo i'r swyddogion trafnidiaeth ar ôl iddynt gael eu recriwtio, sef rhywbeth a fydd yn dechrau'n fuan, ac ar ôl iddynt gwblhau eu hyfforddiant. Bydd y cyfnod treialu, a fydd yn cyd-fynd â chyfnod treialu tebyg yn y Gogledd, yn llywio'r gwaith o lunio gwasanaeth Swyddogion Trafnidiaeth priodol ar gyfer Cymru yn y dyfodol.